OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 500 (Cy. 149)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 2.54 p.m. ar 22 Ebrill 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *am 4.45 p.m. ar 22 Ebrill 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *am 4.00 a.m. ar 23 Ebrill 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 23 Ebrill 2021.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei roi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

# RHAN 2

## Diwygiadau

**Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020**

**2.** Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**Diwygiad i reoliad 6B**

**3.** Yn rheoliad 6B(1A) (gofyniad i drefnu profion cyn cyrraedd Cymru), o flaen "yn gymwys", yn yr ail le y mae'n digwydd, mewnosoder "neu reoliad 12E(2)(f)".

**Diwygiad i reoliad 6K**

**4.** Yn rheoliad 6K(1) (profi'r gweithlu), ar ôl "Atodlen 2" mewnosoder "neu reoliad 12E(2)(g)".

**Diwygiadau i reoliad 12E**

**5.**—(1) Mae rheoliad 12E (mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff (2)(e) mewnosoder—

"(f) yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 14 o Atodlen 5;

(g) yn berson—

(i) y mae'n ofynnol iddo ymgymryd â gwaith fel gweithiwr iechyd proffesiynol neu weithiwr gofal proffesiynol yn y Deyrnas Unedig,

(ii) sy'n gymwys i ymarfer proffesiwn a reoleiddir gan unrhyw un neu ragor o'r cyrff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(**3**) neu adran 67 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**4**), a

(iii) sydd wedi teithio i'r Deyrnas Unedig at ddiben cyflogaeth fel gweithiwr iechyd proffesiynol neu weithiwr gofal proffesiynol."

(3) Ym mharagraff (3F)(b), yn yr addasiad i reoliad 10(4), ar ôl is-baragraff (h) mewnosoder—

"(i) pan fo P yn berson sy'n dod o fewn paragraff (2)(f), at ddiben ymgymryd â'r gwaith hwnnw."

**Diwygiad i Atodlen 3A**

**6.** Yn Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol), yn y lle priodol mewnosoder—

(**2**) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/154 (Cy. 38), O.S. 2021/305 (Cy. 78), O.S. 2021/361 (Cy. 110) ac O.S. 2021/454 (Cy. 144).

(**3**) 2002 p. 17.

(**4**) 2016 dccc 2.

"India".

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Am 2.54 p.m. ar 22 Ebrill 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod sydd i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 6B o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn esemptio person sy'n cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol, sydd wedi teithio i'r Deyrnas Unedig at ddiben cludo deunyddiau penodol i'w defnyddio i ddarparu gwasanaeth iechyd gan ddarparwr gwasanaethau iechyd, rhag y gofyniad i drefnu profion cyn iddo gyrraedd.

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 6K o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn cymhwyso'r gofynion ar brofi'r gweithlu i weithwyr iechyd neu weithwyr gofal penodol sy'n cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol er mwyn ymgymryd â chyflogaeth.

Mae rheoliad 5 yn diwygio rheoliad 12E o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn caniatáu i'r ddau gategori hynny o berson gael mynediad i Gymru.

Mae rheoliad 6 yn diwygio Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n cynnwys y rhestr o wledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol yng Nghymru. Mae rheoliad 6 yn ychwanegu India at y rhestr.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.